CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI
Y GYFARWYDDIAETH GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

TÎM COMISIYNU

ADRODDIAD MONITRO CONTRACT

Enw/Cyfeiriad y Darparwr: Cartref Preswyl Tŷ Iscoed, Woodland Drive, Trecelyn, NP11 5FG

Dyddiad/Amser yr Ymweliad: 06.02.18

Swyddog(ion) yn Ymweld: Andrew Davies, Swyddog Monitro Contractau

Presennol: Caroline Davies, Rheolwr Cofrestredig
Karen Evans, Dirprwy Reolwr

1. Cefndir

1.1 Mae Tŷ Iscoed yn gartref Awdurdod Lleol yn Nhrecelyn. Mae'r cartref wedi'i gofrestru i ddarparu gofal ar gyfer 30 o breswylwyr; gydag angen gofal preswyl ar 10 ac angen gofal preswyl ar gyfer dementia ar 20. Yn y niferoedd hyn mae tri lleoliad asesu, lle gall pobl symud i mewn i'r cartref dros dro, a chael eu hasesu er mwyn gweld a oes angen gofal hirdymor arnynt.

1.2 Mae'r cartref ar dri llawr, gyda gofal preswyl ar y llawr cyntaf, a gofal dementia ar y llawr daear a'r is-lawr.

1.3 Mae Tŷ Iscoed yn gartref 'Butterfly', gyda dyfarniad lefel 2 wedi cael ei roi iddo yn 2016 ar ôl gweithio gyda Dementia Care Matters, sydd wedi cynnwys gwneud llawer iawn o newidiadau yn y cartref er mwyn cyflwyno model newydd o ofal. Mae Gwasanaethau Cymdeithasol Caerffili yn argymell y dylai pob cartref yn y fwrdeistref gyflwyno'r model hwn o ofal dementia.

1.4 Cynhaliwyd adolygiad a drefnwyd ymlaen llaw ar 6 Chwefror 2018. Yn ystod yr ymweliad edrychodd y swyddog monitro ar ddogfennaeth, siaradodd â staff a phreswylwyr, a gwnaeth rai arsylwadau cyffredinol ar y rhyngweithio rhwng y staff a'r preswylwyr, yn enwedig amser cinio.

1.5 Yn dibynnu ar ganfyddiadau'r adroddiad, gellir rhoi camau cywirol a datblygiadol i'r darparwr eu cymryd. Camau y mae'n rhaid eu cymryd yn unol â rheoliadau fel y Safonau Gofynnol Cenedlaethol yw camau cywirol, ac argymhellion arfer da yw camau datblygiadol.

2. Camau Cywirol a Datblygiadol Blaenorol

2.1 Sicrhau bod preswylwyr (neu eu cynrychiolwyr) yn ymwneud â'r gwaith o ddatblygu cynlluniau cyflenwi gwasanaeth a, lle bo modd, yn llofnodi i ddangos eu bod yn cytuno â'r cynnwys. *(Safon Ofynnol Genedlaethol 6.5)* **Canfyddiadau:**

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg, ac mewn ieithoedd a fformatau eraill ar gais.
This document is available in Welsh, and in other languages and formats on request.

Nid oedd y cynlluniau gwasanaeth ar y ffeiliau a welwyd wedi cael eu llofnodi gan y preswylydd na chynrychiolydd. **Heb ei Gyflawni.**

2.2 Sicrhau bod staff yn cael hyfforddiant gloywi bob tair blynedd ar gyfer cyrsiau gorfodol fel POVA, a rheoli heintiau, a'u bod yn cael hyfforddiant gloywi blynyddol ar gyfer Codi a Chario. *Rheoliadau Cartrefi Gofal Cymru 2002, 18 (1)(c) (Nodir hefyd yng nghontract CBSC â chartrefi gofal)* Amserlen: Ar unwaith ac yn barhaus **Canfyddiadau:** Gwelwyd y cofnodion hyfforddi a nodwyd bod staff wedi cael hyfforddiant gorfodol, gan gynnwys codi a chario. **Cyflawnwyd.**

2.3 Dylai'r cartref gynnal arolwg sicrhau ansawdd, gan ystyried barn preswylwyr, perthnasau ac ymwelwyr eraill (fel meddygon teulu, gweithwyr cymdeithasol, nyrsys ardal ac ati) a dylai'r wybodaeth hon gael ei defnyddio i wella ansawdd gofal yn y cartref. *(SOG 28.4)* Amserlen: O fewn tri mis i ddyddiad yr adroddiad hwn. **Canfyddiadau:** Nododd y Rheolwr ei bod wrthi'n cynnal proses sicrhau ansawdd. Anfonwyd holiaduron a chafwyd rhai ymatebion. Gwelwyd canlyniadau adroddiad y flwyddyn flaenorol, ac roedd yn galonogol nodi bod yr ymatebion yn canmol pob maes yn fawr. **Cyflawnwyd.**

2.4 Pob aelod o staff gofal i gael goruchwyliaeth ffurfiol o leiaf unwaith bob deufis, ac arfarniad blynyddol. (SOG 24.3). **Canfyddiadau:** Gwelwyd y matrics goruchwylio a nodwyd bod sesiynau goruchwylio yn digwydd fel bo angen, a chafodd y bylchau eu hegluro (e.e salwch hirdymor) **Cyflawnwyd**.

2.5 Anogir y cartref i fabwysiadu dull newydd o gynllunio gwasanaethau (a gyflwynir ar hyn o bryd) ar gyfer ffeiliau pob preswylydd. (Cam Datblygiadol) **Canfyddiadau:** Mae'r cynlluniau cyflenwi gwasanaeth bellach yn cael eu hysgrifennu yn y fformat newydd **Cyflawnwyd**.

2.6 Rheolwr i ystyried trefnu cyfarfodydd rheolaidd i berthnasau er mwyn cael adborth a syniadau am sut i redeg y cartref yn gyffredinol. Cam Datblygiadol **Canfyddiadau:** Trefnwyd cyfarfodydd â pherthnasau, a nododd y Rheolwr fod lefelau presenoldeb yn amrywio. Yn gyffredinol mae'r cyfarfodydd wedi esgor ar adborth cadarnhaol ac ni nodwyd unrhyw gamau penodol yr oedd angen eu gwella. Gwelwyd cofnodion cyfarfod ym mis Tachwedd; roedd y brif drafodaeth yn ymwneud ag adnewyddu'r gegin a pha drefniadau oedd yn cael eu cyflwyno er mwyn parhau i ddarparu prydau bwyd wrth i'r gwaith fynd rhagddo **Cyflawnwyd**.

3. Canfyddiadau o'r Ymweliad

3.1 Dogfennaeth

3.1.1 Gwelwyd tair ffeil yn perthyn i breswylwyr yn ystod yr ymweliad. Cafodd yr asesiadau derbyn priodol eu cwblhau ar bob ffeil, ac roeddent yn cynnwys copi o gynllun gofal mwyaf diweddar CBSC.

3.1.2 Ar y ffeiliau a welwyd nid oedd unrhyw lofnod ar y cynlluniau cyflenwi gwasanaeth i ddangos bod y preswylydd neu aelod o'r teulu wedi bod ynghlwm wrth greu cynnwys y cynlluniau.

3.1.3 Roedd yn gadarnhaol nodi bod y cynlluniau gwasanaeth yn cynnwys enghreifftiau o hoff bethau a chas bethau, fel amseroedd dymunol o ran codi a mynd i'r gwely, a bwyd a gweithgareddau. Hefyd, roeddent yn dangos pa dasgau y gallai'r preswylwyr eu gwneud yn annibynnol a pha gymorth roedd ei angen gan y staff gofal. Cafodd y cynlluniau cyflenwi gwasanaeth eu hysgrifennu yn y person cyntaf, gyda gwybodaeth fanwl a phersonol am y preswylwyr.

3.1.4 Roedd y ffeiliau yn cynnwys dogfennau 'This is Me', gyda gwybodaeth a roddwyd gan y preswylwyr a'u teuluoedd. Roedd y dogfennau hyn wedi'u cwblhau yn llawn, ac roeddent yn rhoi darlun da iawn o'r unigolyn. Caiff y wybodaeth hon ei defnyddio i helpu'r staff i ddarparu gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

3.1.5 Roedd asesiadau risg i'w gweld ar y ddwy ffeil, a nodai'r risg ei hun, canlyniadau'r risg, a'r camau roedd angen eu cymryd er mwyn lleihau a lliniaru'r risg. Roedd yn ymddangos bod asesiadau risg ar waith ar gyfer pob risg a nodwyd.

3.1.6 Cafodd y cynlluniau gwasanaeth a'r asesiadau risg eu hadolygu yn ôl yr angen, ac roedd yn gadarnhaol nodi bod yr adolygiadau o gynlluniau gwasanaeth yn cynnwys adran ar wahân ar gyfer y dydd a'r nos. Nodwyd bod rhai o'r adolygiadau wedi'u dyddio fesul mis yn unig, yn hytrach na chael eu dyddio'n llawn i gynnwys pa ddiwrnod o'r mis.

3.1.7 Pan oedd adolygiadau yn cynnwys gwybodaeth newydd neu newidiadau sylweddol, cafodd y cynlluniau gwasanaeth eu diweddaru'n briodol.

3.1.8 Roedd y cofnodion dyddiol a welwyd ar y ddwy ffeil yn fanwl ac yn rhoi argraff dda o bob diwrnod, gan gynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am gyflyrau meddygol, hwyliau'r preswylydd, unrhyw weithgareddau a wnaed, ac ymweliadau gan aelodau o'r teulu.

3.1.9 Roedd dogfennaeth arall yn y ffeiliau, fel cofnodion pwysau misol, wedi'u cwblhau ar amser, ac roedd tystiolaeth o atgyfeiriadau at wasanaethau priodol lle cafwyd newid mewn angen, er enghraifft roedd atgyfeiriadau at y Meddyg Teulu, CPN, Deietegydd, Therapydd Galwedigaethol, Deintydd a Nyrs Ardal.

3.2 <u>Cyfleusterau / Arsylwadau</u>

3.2.1 Roedd yr arsylwadau cyffredinol ar y cartref yn gadarnhaol iawn. Roedd pob ardal yn lân ac yn daclus, heb unrhyw oglau, ac roeddent wedi'u haddurno i safon uchel.

3.2.2 Mae'r cartref wedi'i addurno a'i lenwi ag eitemau gan ddilyn argymhellion Dementia Care Matters. Mae'r coridorau wedi'u paentio mewn lliwiau llachar a cheir eitemau amrywiol yn y coridorau y gellir eu cymryd a'u defnyddio. Mae'r ardaloedd cymunedol yn llawn eitemau amrywiol a bocsys twrio. Roedd yn amlwg bod pobl yn ymddiddori ac yn defnyddio'r eitemau hyn yn ystod y dydd. Ar adeg yr ymweliad roedd amrywiaeth o addurniadau yn seiliedig ar thema rygbi o amgylch y cartref gan fod Pencampwriaeth y Chwe Gwlad yn digwydd ar y pryd.

3.2.3 Mae gan bob preswylydd ddrws wedi'i bersonoli ar gyfer ei ystafell wely, gyda blwch atgofion sy'n cynnwys lluniau, neu eitemau bach. Mae gan rai preswylwyr wybodaeth amdanynt eu hunain (fel eu swydd yn y gorffennol, pethau sy'n bwysig iddynt) wrth y drws mewn ffrâm.

3.2.4 Gwelwyd awyrgylch cyfeillgar a hamddenol iawn drwy gydol y dydd, gyda phreswylwyr yn cymryd rhan mewn gweithgareddau amrywiol yn unigol neu mewn grwpiau bach. Yn y bore, gwelwyd staff yn sgwrsio ag un preswylydd tra'n edrych drwy bapur newydd, ac roedd aelod arall o staff yn eistedd gyda grŵp o breswylwyr yn sgwrsio. Roedd aelod arall o staff yn paentio ewinedd un fenyw. Gwelwyd staff y gegin yn annog preswylwyr i roi help llaw drwy gasglu llestri a gosod y bwrdd ac ati. Yn ddiweddarach yn y bore aeth y Dirprwy Reolwr allan am dro gydag un preswylydd am ei fod wedi gofyn am gael gwneud hynny. Gwelwyd staff yn cynnig diodydd drwy gydol y dydd yn hytrach nag aros am adegau penodol, ac roedd y staff bob amser yn rhyngweithio â'r preswylwyr mewn ffordd naturiol, gofalgar a chyfeillgar.

3.2.5 Roedd yr hyn a welwyd amser cinio yn gadarnhaol iawn. Cawsai'r preswylwyr ddewis gweledol o bryd bwyd a phwdin, ac roedd y staff yn bwyta eu pryd nhw gyda'r preswylwyr tra hefyd yn cynnig cymorth lle bo angen. Roedd cerddoriaeth yn chwarae yn y cefndir, ac roedd yr awyrgylch yn un hamddenol a oedd yn creu profiad braf.

3.2.6 Roedd y rhyngweithio rhwng pob aelod o staff a'r preswylwyr yn ystod yr ymweliad yn gynnes ac yn ofalgar, ac roedd yn amlwg bod y staff wedi croesawu ethos Dementia Care Matters.

3.3 <u>Staffio</u>

3.3.1 Mae'r cartref yn cyflogi Rheolwr llawn amser a Dirprwy Reolwr llawn amser, yn ogystal ag uwch ofalwyr. Mae gan y cartref dri 'thŷ' ar wahân (un ar bob llawr) a chaiff pob tŷ ei staffio gan ddau gynorthwyydd gofal yn ystod y dydd, yn ogystal â howsgiper. Gyda'r nos mae pedwar cynorthwyydd gofal ar ddyletswydd. Hefyd, mae aelod ychwanegol o staff ar adegau penodol o'r dydd.

3.3.2 Gwelwyd dwy ffeil yn perthyn i staff yn ystod yr ymweliad, a oedd yn cynnwys y rhan fwyaf o'r wybodaeth ofynnol, fel ffurflen gais wedi'i chwblhau'n llawn, dau eirda, a phrawf adnabod. Ni chaiff peth gwybodaeth, fel y contract cyflogaeth wedi'i lofnodi, ei chadw yn y cartref. Yn hytrach mae'n cael ei chadw gan adran adnoddau dynol yr awdurdod lleol.

3.3.3 Roedd y ffeiliau yn cynnwys tystysgrifau hyfforddi, a thystiolaeth o sesiwn sefydlu lawn i aelodau newydd o staff.

3.3.4 Mae gan y staff gyfraddau cadw staff da iawn, ac ychydig iawn o staff sydd wedi gadael dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Roedd yn amlwg o'r cofnodion fod sawl aelod o staff wedi gweithio yn y cartref ers 10 mlynedd o leiaf.

3.4 <u>Hyfforddiant</u>

3.4.1 Mae'r cartref yn cadw ffeil hyfforddiant sy'n cynnwys cofnodion o'r holl hyfforddiant a gafwyd a chyrsiau sydd i ddod. Roedd yn amlwg o'r ffeil fod staff wedi cael hyfforddiant gorfodol, ac roedd sawl enghraifft o gyrsiau nad oeddent yn orfodol yn cael eu dilyn, fel iechyd y geg, hanes bywyd, gofal lliniarol, rheoli gwrthdaro a seminar gweithgareddau.

3.4.2 Mae pob aelod o staff gofal wedi ennill cymhwyster NVQ neu FfCCh lefel 2 neu uwch.

3.4.3 Caiff y rhan fwyaf o gyrsiau hyfforddi eu trefnu drwy CBSC er y defnyddir peth hyfforddiant allanol.

3.5 Adborth preswylwyr

3.5.1 Siaradodd AD â sawl preswylydd yn ystod yr ymweliad, ac roedd yr holl adborth yn gadarnhaol. Nododd rhai preswylwyr eu bod yn fodlon iawn ar y bwyd, y gweithgareddau, ac roedd pawb yn fodlon iawn ar ansawdd y gofal a'r staff yn gyffredinol. Dywedodd un preswylydd ei bod yn mwynhau eistedd yn y lolfa gan sgwrsio â'i ffrindiau, a'i bod hefyd yn dewis treulio peth amser yn ei hystafell. Dywedodd preswylydd arall ei fod yn fodlon ar bopeth a bod y staff yn benigamp.

3.6 Adborth perthnasau

3.6.1 Rhoddodd un ymwelydd rheolaidd adborth cadarnhaol iawn ar y cartref a'r safon o ofal roedd ei pherthynas yn ei chael. Dywedodd yr ymwelydd ei bod bob amser yn cael croeso gan y cartref, ac roedd yn teimlo ei bod yn hawdd mynd at y staff a'r Rheolwr. Nododd hefyd fod y staff yn adnabod ei pherthynas yn dda iawn, a'u bod yn gwybod beth oedd ei hoff bethau a'i gas bethau, a'i ddiddordebau. Hefyd, roedd yn teimlo'n gyfforddus yn codi mân bryderon, ac o'r farn y byddai'r cartref yn gweithredu ar unrhyw fater. Dywedodd fod y cartref yn 'wych' yn ei barn hi.

3.7 Gweithgareddau

3.7.1 Nid yw'r cartref yn cyflogi cydlynwyr gweithgareddau gan fod pob aelod o staff yn gyfrifol am drefnu gweithgareddau a chymryd rhan ynddynt. Yn ystod y dydd, roedd gwahanol weithgareddau yn cymryd lle ac roedd yn amlwg bod y rhain yn cael eu harwain gan yr hyn roedd y preswylwyr yn dewis ei wneud.

3.7.2 Dangosodd y cofnodion dyddiol dystiolaeth o wahanol weithgareddau fel tylino'r dwylo, cwisiau, gemau bwrdd, hel atgofion, a gwaith celf a chrefft. Ar ddiwrnod yr ymweliad, roedd rhai preswylwyr yn cymryd rhan yn y gweithgareddau hyn, yn ogystal ag eraill. Aeth un dyn am dro gydag aelod o staff, roedd un fenyw yn gwau, ac roedd eraill yn pori drwy gylchgronau.

3.7.3 Yn ogystal â'r gweithgareddau dyddiol, ceir hefyd weithgareddau wedi'u trefnu, gydag ymweliadau rheolaidd gan ddiddanwyr.

4. Camau Cywirol / Datblygiadol

4.1 Cywirol

4.1.1 Sicrhau bod preswylwyr (neu eu cynrychiolwyr) yn ymwneud â'r gwaith o ddatblygu cynlluniau cyflenwi gwasanaeth a, lle bo modd, yn llofnodi i ddangos eu bod yn cytuno â'r cynnwys. *(Safon Ofynnol Genedlaethol 6.5)*

4.1.2 Sicrhau, pan gaiff dogfennaeth ei chwblhau (e.e adolygiadau misol) fod y cofnodion wedi'u llofnodi a'u dyddio'n llawn *(Safon Ofynnol Genedlaethol 7.2)*

4.2 Datblygiadol

4.2.1 Dim

5. Casgliad

5.1 Roedd yr ymweliad yn gadarnhaol iawn, ac roedd yn amlwg bod y staff wedi mabwysiadu ethos Dementia Care Matters. Roedd yr arsylwadau yn ystod y dydd i gyd yn gadarnhaol, a chafwyd adborth ardderchog gan y preswylwyr ac ymwelwyr. Roedd yn amlwg bod cydberthynas gynnes rhwng y staff a'r preswylwyr, ynghyd ag awyrgylch braf a hamddenol iawn yn ystod y diwrnod.

5.2 Mae'n gadarnhaol nodi bod y rhan fwyaf o'r camau gweithredu blaenorol wedi'u cwblhau, gyda nifer fechan o argymhellion newydd.

5.3 Trefnir ymweliad arall fel rhan o'r rhaglen fonitro reolaidd, er mwyn adolygu'r camau cywirol a datblygiadol. Hoffai'r swyddog ddiolch i'r staff am eu croeso cynnes yn ystod yr ymweliad.

Awdur: Andrew Davies
Dynodiad: Swyddog Monitro Contractau
Dyddiad: 22.03.18

D.S. Bydd yr adroddiad hwn ar gael ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Bydd copïau caled o'r adroddiad hefyd ar gael i ddarpar breswylwyr a/neu eu teuluoedd ar gais.